
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1710 (Cy.172)

CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - *27 Mehefin 2006*

Yn dod i rym - - *1 Gorffennaf 2006*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 o Ddeddf Gwenyn 1980⁽¹⁾, ac a freiniwyd ynddo bellach, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

(1) [1980 c. 12](#). Mewn perthynas ag adran 1 o Ddeddf 1980, trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn rhinwedd [O.S. 1999/672](#). Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan [O.S. 1999/3141](#). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan [O.S. 2002/794](#) a throsglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y gellir eu gweithredu mewn perthynas â Chymru, i'r Cynulliad Cenedlaethol gan [O.S. 2004/3044](#).